OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1609

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

## RHAN 2

## Lefelau o gyfyngiadau ar ymgynnull, ar deithio ac ar ddefnyddio mangreoedd busnesau a gwasanaethau

**Lefelau o gyfyngiadau**

**4.**—(1) Mae Atodlenni 1 i 4 yn nodi cyfyngiadau a gofynion a all fod yn gymwys mewn ardal mewn perthynas ag—

(a) cynulliadau;

(b) trefnu digwyddiadau;

(c) teithio i ardaloedd eraill ac o ardaloedd eraill;

(d) defnyddio mangreoedd busnesau neu wasanaethau penodedig sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd.

(2) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 1 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 1.

(3) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 2 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 2.

(4) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 3 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 3.

(5) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 4 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 4.

(6) Mae Atodlen 5 yn nodi pa un o Atodlenni 1 i 4 sy'n gymwys i ardal drwy bennu lefel ar gyfer yr ardal honno.

**F1**(7) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(8) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) "ardal Lefel Rhybudd 1" yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 1;

(b) "ardal Lefel Rhybudd 2" yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 2;

(c) "ardal Lefel Rhybudd 3" yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 3;

(d) "ardal Lefel Rhybudd 4" yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 4.

## Diwygiadau Testunol

**F1** Rhl. 4(7) wedi ei hepgor (9.1.2021 am 4.00 a.m.) yn rhinwedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/20), rhlau. 1(2), **8(2)**

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** Rhl. 4 mewn grym ar 20.12.2020 (fel y diwygiwyd gan O.S. 2020/1610, rhl. 2(2)), gweler **rhl. 1(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/01/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.